# Gweithdy

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1 | *Datblygu mentrau yn effeithiol er mwyn gwella profiadau myfyrwyr* | Michelle Morgan | 13.50-14.35 | C105 |
| | Mae'r gweithdy rhyngweithiol hwn yn gofyn i gydweithwyr ddod i'r sesiwn wedi nodi maes yr hoffent greu, datblygu neu wella menter ynddo er mwyn gwella profiadau myfyrwyr. Gallai fod ym maes Dysgu ac Addysgu, cymorth i fyfyrwyr neu'n broses weinyddol.<br>Pan fyddwch yn creu, datblygu neu'n gwella menter, mae pum prif ffactor yn gysylltiedig â sicrhau y bydd yn llwyddo.<br>• Nodi'r grŵp targed (e.e. is-raddedigion neu ôl-raddedigion, grŵp blwyddyn neu ddemograffig penodol). Osgoi mabwysiadu un dull gweithredu i bawb, ond byddwch yn ystyriol lle mae menter yn drosglwyddadwy.<br>• Ystyried y pum prif thema ym Model Trosglwyddo Profiadau Myfyrwyr: Addysgeg; Cwricwlwm ac Asesu; Cefnogi; Cyllid a Chyflogaeth.<br>• Dwyn rhanddeiliaid allweddol ynghyd drwy ddarparu ar y cyd yn hytrach na gweithio mewn seilos a bod uned/adran yn 'berchen ar' fenter.<br>• Mapio fframwaith cychwynnol.<br>• Ail ymweld â'r fenter yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn addas ar gyfer y myfyrwyr presennol a'r amgylchedd AU.<br><br>Yn y gweithdy rhyngweithiol, bydd cydweithwyr, gan ddefnyddio'r Model Trosglwyddo Profiadau Myfyrwyr fel adnodd, yn gweithio mewn grwpiau bach i drafod pwy ddylai fod yn rhan o'r fenter, nodi'r themâu sy'n berthnasol ac yna, mynd ati i greu, datblygu neu wella'r fenter i'w rhoi ar waith yn y dyfodol. | | | |
| 2 | *Darlunio cyfnodau pontio myfyrwyr* | Tîm Hwyluso Gweledol | 13.50-14.35 a 14.50-15.35 | C101 |
| | Bydd Tîm Hwyluso Gweledol Met Caerdydd, sydd wedi cefnogi'r Gynhadledd Flynyddol Dysgu ac Addysgu dros y ddwy flynedd flaenorol, yn cynnig cyfle i gynadleddwyr fynd i'r afael â throsglwyddo myfyrwyr drwy ddarluniau a gwaith 3D. Bydd y gweithdy yn rhoi cyfle i drafod pwyntiau trosglwyddo, cylch oes myfyrwyr a chyfranogiad staff ym mhrofiad myfyrwyr. Bydd cynadleddwyr yn rhyngweithio ac yn creu eu darluniau a'u helfennau 3D eu hunain, gan ychwanegu eu safbblwynt eu hunain at y cylch oes myfyriwr ehangach. Bydd cynadleddwyr hefyd yn cael cyfle i weld sut y gellir defnyddio dulliau hwyluso gweledol i helpu timau neu brosiectau i gefnogi eu datblygiad, cynllunio a gwerthuso. | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3 | *Cyfnewid rhithwir, cyrraedd y byd y tu allan o'r ystafell ddosbarth* | Henry Dawson | 13.50-14.35 | C102 |
| | Bydd y gweithdy hwn yn cynnwys cymorth ar gyfnewid rhithwir rhwng Met Caerdydd, Prifysgol Fodern ar gyfer Busnes a Gwyddoniaeth ym Meirut a Phrifysgol Stanford yng Nghaliffornia. Roedd y broses gyfnewid (a ddigwyddodd ym mis Mawrth) yn rhan o ymarfer dysgu yn seiliedig ar ddatrys problemau lle bu'n rhaid i Gaerdydd a Beirut gydweithio i ymchwilio i broblemau ac anghenion ceiswyr lloches o Syria yn yr Iorddonen. Defnyddiwyd Skype, meddalwedd cipio darlithoedd, WhatsApp a realiti rhithwir i roi profiad dysgu cyfoethog, gwella ymwybyddiaeth fyd-eang y myfyrwyr a'u hysbrydoli i weithio y tu allan i'r DU. Bydd y gweithdy yn rhoi cyfle i gyfranogwyr weld sut y gallai'r technolegau hyn weithio o fewn eu rhaglenni eu hunain neu i gefnogi myfyrwyr. | | | |
| 4 | *Defnyddio dulliau hyfforddi i diwtora personol* | Francesca Cooper a Helen Whitney | 13.50-14.35 | C103 |
| | Nod y sesiwn, sydd wedi'i llywio gan ddamcaniaeth hyfforddi, yw rhoi rhywfaint o gwestiynau allweddol, ymarferol ac anghyfarwyddiadol a geiriau ac ymadroddion defnyddiol i gynadleddwyr a all fod yn ddefnyddiol yn nulliau hyfforddi'r brifysgol i diwtora personol. Nod ein dulliau yw meithrin perthynas gydweithredol rhwng y myfyriwr a'r tiwtor ac annog sgiliau'r myfyrwyr o ran gwneud penderfyniadau eu hunain. Bydd y sesiwn yn cynnwys sut i grynhoi mater er mwyn nodi pa gamau penodol y gallant eu cymryd er mwyn symud ymlaen. | | | |
| 5 | *Meithrin ymdeimlad o berthyn – cymdeithasau sy'n seiliedig ar gyrsiau* | Undeb y Myfyrwyr | 13.50-14.35 | C104 |
| | Bydd y gweithdy hwn yn ystyried sut y gall cymdeithasau myfyrwyr helpu i feithrin ymdeimlad o berthyn yn ein myfyrwyr a manteision y rhain i'r rhaglenni cysylltiedig mewn cymdeithasau sy'n benodol i ddisgyblaeth. Bydd staff yn magu dealltwriaeth ac yn cael amlinelliad o'r ffordd gallent helpu i gefnogi myfyrwyr drwy gymdeithasau o fewn eu disgyblaethau a thu hwnt, syniadau ynghylch sut y gall Undeb y Myfyrwyr gefnogi timau rhaglen a myfyrwyr drwy gymdeithasau, a datblygu cydberthynas waith rhwng Undeb y Myfyrwyr ac Ysgolion. | | | |
| 6 | *Trosglwyddo i Ffasiwn – Straeon am fodiwl rhwng ysgolion a ddyluniwyd i efelychu arferion y diwydiant* | Jemma Oeppen Hill ac Irene Dee | 13.50-14.35 | C108 |
| | Bydd y gweithdy hwn yn rhannu stori modiwl a rennir, rhwng dwy ddisgyblaeth, mewn dwy ysgol, yn dod at ei gilydd gyda nod a rennir, sef ymgorffori dysgu arbrofol, er mwyn galluogi myfyrwyr i fireinio eu sgiliau tra'n cael gwybodaeth fanwl am y diwydiant ffasiwn drwy weithio mewn disgyblaethau gwahanol. Roedd y rhaglenni BA (Anrh) Dylunio Ffasiwn (Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd) a Rheoli Marchnata Ffasiwn (Ysgol Reoli Caerdydd) yn newydd ar gyfer 2017, gyda mwy na 70 o fyfyrwyr yn cofrestru ar gyfer y ddau gwrs. | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7 | *Alla i ddim dy helpu di os nad wyt ti'n fodlon cwrdd â fi – galluogi myfyrwyr i gael gafael ar staff drwy ddefnyddio technolegau ar-lein* | Tîm Rhaglen Technoleg Ddeintyddol | 14.50-15.35 | C102 |
| | Bydd y gweithdy hwn yn cyflwyno astudiaeth achos, natur amrywiol anghenion myfyrwyr ac yn cynnig dull gweithredu o ran sut y gallwn eu bodloni. Bydd y sesiwn yn dangos sesiwn byw ac yn dangos ei ddefnydd posibl ar gyfer pob rhan o'r sefydliad. Bydd cynadleddwyr yn gallu cymryd rhan yn y gweithgaredd hwn. Bydd y gweithdy yn gofyn cwestiynau megis: Faint bydd myfyrwyr yn datgelu ar-lein? Yng ngoleuni'r ffaith bod ffonio drwy ddefnyddio fideo yn rhywbeth sy'n digwydd o ddydd i ddydd a ddim yn syniad ffuglen wyddonol. Mewn perthynas â'r defnydd sy'n ymddangos yn rheolaidd o FaceTime, Skype ac ati, a'r graddau y mae myfyrwyr yn gyfarwydd â'r dechnoleg hon a/neu eu hamharodrwydd i ymgysylltu â hi. (Byddwch hefyd yn ymchwilio i amharodrwydd staff i ymgysylltu â'r technolegau). | | | |
| 8 | *Meithrin ymarferwyr myfyriol'* | Cath Davies | 14.50-15.35 | C103 |
| | Bydd y gweithdy hwn yn rhannu strategaethau er mwyn gwella ysgrifennu myfyriol myfyrwyr yn Nyddiaduron dysgu (CDP) Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd. Bydd yn ystyried yr heriau rydym yn eu hwynebu o ran sicrhau bod myfyrwyr yn ymgysylltu â'u dyddiaduron dysgu a'r ffordd rydym yn mynd i'r afael â'r rhain yn yr ysgol. Mae myfyrdodau myfyrwyr yn dueddol o werthuso darlithoedd maent wedi'u mwynhau (neu beidio) ac mae cyfrifon o'u taith academaidd wedi bod yn ddisgrifiadol, gan gadarnhau'r ymchwil bod CDPau yn dueddol o fod yn arwynebol oni chaiff dull gweithredu cyson a systematig ei fabwysiadu (Ryan, 2013:244). Caiff gweithgareddau a ddefnyddir i greu dadansoddiadau myfyriol â myfyrwyr eu rhannu yn y gweithdy hwn fel adnoddau defnyddiol i ni eu mabwysiadu ein hunain yn ein rolau amlhaenog a'n cyfrifoldebau ym Met Caerdydd. Nid yw'n syndod ein bod ni hefyd yn cael budd o ddulliau gweithredu mwy systematig o fod yn ymarferwyr myfyriol wrth addysgu a chefnogi cydweithwyr. | | | |
| 9 | *Datblygu cyflogadwyedd drwy daith y myfyriwr* | Steve Osbourne | 14.50-15.35 | C104 |
| | Mae newid aflonyddgar digyffelyb o fewn system Addysg Uwch y DU, sydd wedi'i hwyluso'n rhannol gan amrywiaeth o ddylanwadau allanol treiddiol. Mae Papur Gwyn y Llywodraeth, Llwyddiant fel Economi Gwybodaeth, Strategaeth Ddiwydiannol y DU ynghyd â'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Chanlyniadau Graddedigion, yn darparu ffynhonnell newydd o newid gwleidyddol. Mae prifysgolion ac asiantaethau megis yr Academi Addysg Uwch yn ymateb yn gyflym i'r dirwedd sy'n newid o hyd drwy gynnig cymorth, adnoddau a pholisïau newydd. Mae angen i brifysgolion newid y ffordd y mae cyflogadwyedd myfyrwyr yn cael ei ddatblygu ar yr wyneb. Bydd y sesiwn hon yn rhannu gwybodaeth a'r rhaglenni gwaith sydd wedi'u rhoi ar waith fel dull cwricwlaidd ac allgyrsiol cyfannol o ymgorffori cyflogadwyedd. | | | |
| 10 | *Dechrau gyda 'Pam' – Dull o gyfleu'r cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr'* | Martyn Woodward | 14.50-15.35 | C108 |
| | Bydd y gweithdy hwn yn rhannu ac yn profi dull gweithredu o ran cyfleu 'diben' cwricwlwm i fyfyrwyr nad ydynt yn aml wedi'u paratoi ar gyfer amgylcheddau dysgu annibynnol sy'n feirniadol yn academaidd. Cafodd yr arfer hwn ei ddatblygu mewn ymateb i fyfyrwyr sy'n cofrestru ar gyfer rhaglenni yn Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd nad ydynt wedi'u paratoi ar gyfer y mathau o weithgareddau academaidd a meddwl yn feirniadol sy'n ategu addysg ar lefel Prifysgol yn yr adran Celf a Dylunio, ac nad ydynt bob tro yn deall 'diben' gweithgarwch academaidd. | | | |